Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Mawrth 2018

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Cyflwyniad

1. Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru'n datgan y mecanweithiau i CCAUC sicrhau bod ansawdd yr addysg, neu gwrs addysg, a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir yn diwallu anghenion y rhai sy'n ei derbyn.

2. Bydd y Fframwaith yn parhau i gael ei ddiweddaru fel sy'n briodol, gan ystyried canlyniadau ymgynghori, felly ***cyfrifoldeb y defnyddwyr yw sicrhau eu bod yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf***. Pan fyddwn yn cyhoeddi diweddariadau, byddwn yn dangos hynny yn glir ar ein gwefan www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/qa_fa_wa.aspx).

3. Mae CCAUC wedi derbyn cadarnhad bod y cynigion, a'r trefniadau pontio, yn bodloni gofynion y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. Mae hyn yn golygu bod sefydliadau a reoleiddir yn dod o dan statws Haen 4.

Cefndir

4. Roedd Cylchlythyr W16/14HE: Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru yn darparu ymgynghoriad ar y prosesau sy'n sail i'r fframwaith drafft ar gyfer asesu ansawdd yng Nghymru, a chyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yng Nghylchlythyr W16/29HE. O ganlyniad, cyhoeddwyd cyfres o ymgynghoriadau, yn rhoi sylw i'r gwahanol agweddau ar y Fframwaith.

5. Mae adrannau o'r Fframwaith Asesu Ansawdd yng Nghymru wedi cael eu cyhoeddi wedyn fel ymgynghoriadau ar bob agwedd fel roeddent yn cael eu cwblhau, gan gynnwys ystyried newidiadau rheoleiddiol.

6. Yng Nghymru treialwyd trefniadau pontio newydd yn 2016/17, gyda 2017/18 fel blwyddyn ddatblygu, er mwyn hwyluso ailadrodd pellach ar agweddau ar y Fframwaith.

7. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) yn datgan ymyriadau sy'n berthnasol os yw CCAUC yn fodlon bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliad a reoleiddir yn (debygol o ddatblygu i fod) annigonol. Manylir ar y rhain yn Natganiad o Ymyriadau CCAUC.

Meysydd cymharu yn y DU[1]

8. Bydd y Fframwaith Asesu Ansawdd yn cael ei ddarllen ledled y DU drwy gyfrwng y mecanweithiau canlynol a rennir:
   - Safonau gradd a rennir, drwy gyfrwng y Fframwaith ledled y DU ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ);
   - System archwilio allanol gryfach;

[1] Ymgynghorwyd ar hyn yng Nghylchlythyr W16/19HE
www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars_2016.aspx

- Dull o weithredu a rennir gydag elfennau cysylltiedig ag ansawdd y Gofynion Rheoleiddiol Sylfaen;
- Y Gofrestr o Ddarparwyr Addysg Uwch, gyda thrafodaethau ar droed rhwng y partïon sy'n rheoleiddio addysg uwch, i symud ymlaen tuag at ddull o weithredu ledled y DU;
- Gallu sefydliadau Cymru i gymryd rhan yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, os ydynt yn dymuno.

9. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, mae CCAUC wedi monitro, a bydd yn parhau i fonitro, datblygiadau yn Lloegr i werthuso unrhyw effaith ar Gymru. Mae hyn yn eithriadol bwysig yn sgil sefydlu'r Office for Students fel rheoleiddiwr newydd yn Lloegr, oherwydd mae gan hyn botensial i effeithio ar y sylfaen ar gyfer sicrwydd ansawdd. Hefyd byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i Asesu Ansawdd (AA) yng Nghymru'n cael effaith niweidiol ar enw da'r ddarpariaeth yn rhyngwladol.

Nodweddion allweddol[2]

10. Mae nodweddion allweddol y fframwaith asesu ansawdd ar gyfer Cymru fel a ganlyn:
    (i) Cael gwared ar yr ymweliadau adolygu cymheiriaid cylchol a gomisiynwyd gan y corff cyllido er mwyn profi'r gofynion ansawdd sylfaen unwaith eto ar gyfer darparwyr sefydledig;
    (ii) Ail-lunio prosesau adolygu'r darparwr ei hun i sicrhau bod y rhain yn canolbwyntio ar wella canlyniadau myfyrwyr a phrofiad academaidd myfyrwyr;
    (iii) Rhoi mwy o bwyslais ar rôl cyrff llywodraethu er mwyn darparu sicrwydd am faterion ansawdd a safonau;
    (iv) Defnydd mwy systematig o ddata myfyrwyr a data eraill gan gyrff cyllido a rheoleiddio i fonitro perfformiad darparwyr;
    (v) Defnyddio'r cyllid presennol a mecanweithiau sicrwydd y corff rheoleiddio.

Egwyddorion[3]

1. Mae egwyddorion y fframwaith fel a ganlyn. Mae'r system asesu ansawdd yn:
    (i) Seiliedig ar ymreolaeth darparwyr addysg uwch sydd â phwerau dyfarnu graddau i bennu a chynnal safonau academaidd, ac ar gyfrifoldeb yr holl ddarparwyr i benderfynu ynghylch y profiad academaidd mwyaf priodol i'w myfyrwyr a'i ddarparu, ble a sut bynnag maent yn astudio;
    (ii) Defnyddio adolygu cymheiriaid a chraffu allanol penodol fel elfen graidd o asesu ansawdd a dulliau sicrwydd;

[2] Gweler troednodyn 1
[3] Gweler troednodyn 1

(iii) Integreiddio myfyrwyr fel partneriaid wrth gynllunio, gweithredu, monitro ac adolygu prosesau i wella ansawdd eu haddysg;
(iv) Darparu atebolrwydd, gwerth am arian, a sicrwydd hawdd ei ddeall i fyfyrwyr, ac i gyflogwyr, y llywodraeth a'r cyhoedd, mewn meysydd sy'n bwysig i'r rhanddeiliaid hynny, mewn perthynas â darparwyr unigol ac ar draws y sector cyfan;
(v) Gweithio'n dda ar gyfer cenhadaeth gynyddol amrywiol a gwahanol, a mathau o ddarparwyr, ac yn sicrhau bod darparwyr yn gallu arbrofi ac arloesi o ran cyfeiriad strategol neu ddulliau dysgu ac addysgu;
(vi) Mabwysiadu dull o weithredu seiliedig ar risg a thystiolaeth wrth gyd-reoleiddio, er mwyn sicrhau bod craffu rheoleiddiol yn canolbwyntio ar y meysydd lle mae'r risg, neu'r potensial am risg, i safonau a/neu brofiad academaidd y myfyrwyr neu'r system ar ei mwyaf;
(vii) Ymyrryd yn gynnar a chyflym, ond cymesur, pan na fydd pethau'n gweithio;
(viii) Darparu cefnogaeth ar gyfer darparwyr newydd neu lai aeddfed, gan sicrhau hefyd bod y trothwy ar gyfer mynediad i'r sector yn cael ei bennu ar lefel ddigonol ar gyfer profiad academaidd o ansawdd uchel a safonau gradd diogel;
(ix) Defnyddio tystiolaeth gadarn i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus yn cael eu datgan a'u defnyddio i'r eithaf gan bob darparwr;
(x) Cynnal dull o weithredu a fabwysiedir ledled y DU gyfan, cyn belled ag y bo hynny'n bosib mewn system ddatganoledig;
(xi) Gwarchod enw da system addysg uwch y DU mewn cyd-destun byd-eang;
(xii) Sicrhau bod cost a baich cyffredinol y system asesu ansawdd a sicrwydd ehangach yn gymesur.

Gofynion rheoleiddiol sylfaen [4]

1. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y cyrff cyllido yn Lloegr a Gogledd Iwerddon fodel gweithredu adolygedig ar gyfer asesu ansawdd, i'w weithredu o 2016/17 ymlaen. Yn sail i'r model hwn roedd cyfres o ofynion rheoleiddiol sylfaen, yn cynnwys mannau cyfeirio allanol oedd eisoes yn bodoli yn y tirlun addysg uwch. Nod y gofynion yw sicrhau bod yr holl ddarparwyr sy'n gweithredu yn y system addysg uwch yn gallu sicrhau profiad academaidd o ansawdd uchel i fyfyrwyr, i warchod safonau graddau, a buddiannau'r myfyrwyr yn ehangach.

2. Mae'r gofynion rheoleiddiol sylfaen yn elfen graidd o'r dull o weithredu i asesu ansawdd addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Er bod cyfres wahanol o ofynion rheoleiddiol yn bodoli yn yr Alban (o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 2005), mae'r pedair gwlad yn cytuno ar yr egwyddorion craidd mae'r gofynion yn eu cynrychioli, fel y nodir ym mharagraff 9. Hefyd maent yn cytuno bod gan fyfyrwyr hawl i brofiad academaidd o ansawdd uchel, y dylid gwarchod buddiannau myfyrwyr ac y dylai safonau graddau fod yn gymharol ledled y DU. Bydd y sylfaen yn cael

[4] Gweler troednodyn 1

ei hadolygu'n gyson i sicrhau ei bod yn briodol fel ymateb i ddatblygiadau yng ngwahanol wledydd y DU.

Mae'r gofynion sylfaen [5] fel a ganlyn:

a) Y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch, fel y nodir yng Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch;
b) Disgwyliadau Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch;
c) Y cod llywodraethu perthnasol;
d) Rhwymedigaethau perthnasol y darparwyr o dan y gyfraith defnyddwyr;
e) Y fframwaith arfer da perthnasol ar gyfer trin cwynion ac apeliadau academaidd;
f) Gofynion sefydlogrwydd ariannol, rheolaeth a llywodraethu'r corff cyllido perthnasol, a chenhadaeth a strategaeth ar gyfer darpariaeth addysg uwch;
g) Gofynion yr iaith Gymraeg (Cymru yn unig);
h) Cyd-fynd â'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau ar gyfer Cymru (Cymru yn unig).

11. Mae pwyllgor sefydlog ledled y DU ar gyfer sicrwydd ansawdd (UKSCQA) wedi cael ei sefydlu, gan ddod â'r pedwar corff cyllido at ei gilydd gyda chyrff cynrychioliadol y sector a'r myfyrwyr. Mae'r pwyllgor hwn yn darparu goruchwyliaeth ledled y DU ar drefniadau asesu ansawdd, gan gynnwys gofynion rheoleiddiol sylfaen cyffredin.

Materion trawsbynciol[6]

12. Mae'r materion trawsbynciol yn cynnwys y canlynol:

- Angen gwarchod ymdeimlad o system ansawdd ledled y DU, fel mae hynny'n bosib mewn amgylchedd datganoledig gyda sefyllfaoedd polisi cynyddol amrywiol;
- Angen sicrhau cydymffurfiaeth gyson â disgwyliadau ansawdd rhyngwladol, yn enwedig yn Ewrop;
- Rôl hanfodol myfyrwyr fel partneriaid wrth gynllunio a gweithredu trefniadau asesu ansawdd;
- Cynllunio a gweithredu system gydlynol unigol sy'n integreiddio dull y cyrff cyllido o weithredu gydag asesu ansawdd a threfniadau Llywodraeth Lloegr ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) a chanlyniadau myfyrwyr.

Y Fframwaith[7]

13. Mae'r Fframwaith yn cynnwys y canlynol:

a) porth ar gyfer mynediad i sefydliadau sy'n dymuno cael eu dynodi'n awtomatig am gefnogaeth myfyrwyr;

[5] Fel y cytunwyd gyda Phwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Sicrwydd Ansawdd – mae hyn yn amodol ar adolygu pellach ar ôl sefydlu'r Office for Students yn Lloegr
[6] Gweler troednodyn 1
[7] Gweler troednodyn 1

b) trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig, yn adeiladu ar ddulliau sefydledig ac wedi'u profi o feincnodi data a dadansoddi, casglu gwybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth gan fyfyrwyr), asesu risg, a sicrwydd;
c) trefniadau cadarnhau i ddiogelu safonau graddau a'u cymharu'n rhesymol ledled y DU, o dan arweiniad cyrff cynrychioliadol y sector;
d) ymyriad teilwredig ond hynod gyflym pan fo angen;
e) gwarchod enw da rhyngwladol brand addysg uwch y DU, gan gynnwys drwy sicrhau addysg drawsgenedlaethol.

14. Mae cynrychiolaeth o'r fframwaith ar gael yn Ffigur 1 (ac **Atodiad A**, at ddiben cyfeirio'n rhwydd). Nid yw'r prosesau mewn unrhyw drefn benodol ar gyfer darparwyr presennol.[8] Ceir mwy o wybodaeth am bob agwedd isod.

Ffigur 1. Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Fframwaith Asesu Ansawdd				
Porth	**Trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig**	**Ymyriad teilwredig ond hynod gyflym**	**Safonau Gradd a Chymharu**	**Enw Da yn Rhyngwladol**
• Adolygiad porth	• Trefniadau adolygu seiliedig ar risg • Craffu ar ddata • Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu • Ymweliadau bob tair blynedd • Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr	• Proses gwynion CCAUC • Cyfarwyddyd • Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC	• Deall Algorithmau Gradd • Chwyddiant / gwelliant graddau • Archwilio allanol, datblygiad proffesiynol a graddnodi	• Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd • Ymweliadau adolygu trawsgenedlaethol

Porth ar gyfer mynediad i sefydliadau sy'n dymuno cael eu dynodi'n awtomatig am gefnogaeth myfyrwyr

15. O 2017/18 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gael adolygiad porth gan gorff a ddewisir gan CCAUC, yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch[9] ar hyn o bryd. Efallai y bydd sefydliad sy'n cwblhau adolygiad porth yn llwyddiannus yn dymuno gwneud cais am ddynodiad penodol, sy'n galluogi myfyrwyr i gael cefnogaeth i fyfyrwyr israddedig llawn amser ar gyfer cyrsiau AU a enwir, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion eraill y broses hon[10].

[8] Bydd rhaid i newydd-ddyfodiaid i'r system gael adolygiad porth cyn cael eu dynodi'n awtomatig, a chael eu rheoleiddio wedyn, ac felly byddant yn dechrau gyda'r broses hon.
[9] Gweler ymgynghoriad W17/40HE www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars_2017.aspx. Bydd unrhyw ddiweddariadau iddo ar gael yn www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/qa_fa_wa.aspx
[10] Bydd gweinyddu dynodiad penodol yn symud i CCAUC ym mis Ebrill 2018. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei datgan ar wahân.

Fel rheol, bedair blynedd[11] ar ôl yr adolygiad porth gwreiddiol, gall y sefydliad gomisiynu adolygiad porth pellach. Os bydd yr adolygiad hwn yn llwyddiannus, pennir bod y sefydliad wedi bodloni gofynion sicrwydd ansawdd CCAUC cyn gwneud cais am Gynllun Mynediad a Ffioedd[12]1. . Os bydd sefydliad yn llwyddiannus wrth wneud cais am Gynllun Mynediad a Ffioedd, caiff ei ddynodi'n awtomatig, gyda myfyrwyr ar raglenni AU llawn amser yn cael pecyn llawn o gefnogaeth i fyfyrwyr israddedig.

Trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig

2. Diffinnir darparwyr sefydledig fel sefydliadau a reoleiddir. Gwneir trefniadau ar gyfer y darparwyr hyn. Cyflawnir hyn drwy gyfrwng: trefniadau adolygu seiliedig ar risg; craffu ar ddata; sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu; ymweliadau bob tair blynedd; a monitro'r trefniadau partneriaeth rhwng y corff o fyfyrwyr ac addysg uwch. Gall craffu gynnwys ansawdd y ddarpariaeth ar lefel rhaglen neu gwrs, os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol.

Trefniadau adolygu seiliedig ar risg

3. Mae'n ofynnol i sefydliadau a reoleiddir gomisiynu adolygiad sicrwydd ansawdd allanol bob chwe blynedd o leiaf o dan y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Cymru.

4. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau bod y cynigion ar gyfer y fframwaith asesu ansawdd adolygedig i'w weithredu yng Nghymru, a'r trefniadau pontio, yn bodloni ei gofynion ar gyfer goruchwyliaeth addysgol ar gyfer Haen 4.

5. Mae'r gofyniad ar gyfer sicrwydd ansawdd allanol yn ystyried cyfrifoldebau statudol CCAUC mewn perthynas ag addysg a ddarperir gan a/neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, gan gynnwys addysg sy'n annigonol, neu sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol. Mae'n darparu'r sicrwydd gofynnol o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas ag ansawdd, i alluogi cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, ac felly i sefydliadau a reoleiddir gael cefnogaeth i fyfyrwyr.

6. Rhaid i'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol gydymffurfio â gofynion Safonau a Chanllawiau Ewrop (SCE) ar gyfer adolygiadau o'r fath. Mae'r SCE yn galluogi darparwyr addysg uwch i ddangos ansawdd a gwella tryloywder, gan helpu i greu cydymddiriedaeth a gwell cydnabyddiaeth i'w cymwysterau, eu rhaglenni a'u darpariaeth arall. Defnyddir SCE gan sefydliadau ac asiantaethau sicrwydd ansawdd fel dogfen gyfeirio ar gyfer systemau sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol mewn addysg uwch.

[11] Os oes gan sefydliad adolygiad QAA blaenorol, efallai y bydd hwn yn bodloni rhai o'r gofynion – mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghylchlythyr W17/40HE

[12] Rhaid i ymgeisydd am gynllun mynediad a ffioedd fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac yn elusen. Hefyd rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am eu hyfywedd ariannol a'r trefniadau ar gyfer trefnu a rheoli eu materion ariannol. www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/he_wales_act_2015/fee_and_access_plan.aspx

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion adolygu ar gael ar ein gwefan[13]1. .

2. Mae Prifysgolion Cymru wedi sefydlu trefniant fframwaith gyda'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) i ddarparu'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol hwn. Mae ffocws yr adolygiad ar wella. Mae Prifysgolion Cymru wedi cynnig opsiwn i sefydliadau eraill a reoleiddir gymryd rhan yn y trefniadau hyn.

Craffu ar ddata

3. Mae CCAUC yn craffu ar ddata, safbwyntiau myfyrwyr a gwybodaeth arall, a'r wybodaeth a gesglir drwy gyfrwng prosesau atebolrwydd blynyddol CCAUC (gan gynnwys y ffurflen atebolrwydd flynyddol). Gwneir llawer o hyn drwy gyfrwng proses adolygu risg sefydliadol CCAUC. Bydd y craffu hwn yn sail i safbwynt CCAUC ynghylch a yw'r ddarpariaeth yn annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly).

4. Mae'r data mae CCAUC yn eu hystyried mewn perthynas â'i gyfrifoldebau rheoleiddiol yn cynnwys y canlynol:
   - patrymau gôr/tanrecriwtio;
   - cyfraddau dim cynnydd;
   - cyfraddau dim cwblhau;
   - canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr;
   - canlyniadau gradd, gan gynnwys gwahanol ganlyniadau i fyfyrwyr sydd â gwahanol nodweddion;
   - canlyniadau cyflogaeth;
   - canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar gyfer sefydliadau sydd wedi dewis cymryd rhan

5. Hefyd bydd y dadansoddiad yn cynnwys adnabod tueddiadau mewn data, ynghyd ag enw da sefydliadau, fel sail i farn ynghylch a yw addysg yn annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly). Fodd bynnag, ni wneir barn o'r fath ar sail y defnydd o ddata yn unig.

6. Bydd defnyddio data fel hyn yn galluogi adnabod materion perthnasol i grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein Pwyllgor Asesu Ansawdd (PAA) yn ystyried y data hyn ar gyfer sefydliadau a reoleiddir ac yn rhoi cyngor ar y materion sy'n codi. Mae hyn yn cynnwys ystyried a yw sefydliadau wedi cael canlyniadau uwch na'r meincnod, ac a oes modd rhannu arfer da. Bydd cyngor gan PAA yn sail i farn ym mhroses adolygu risg sefydliadol (ARS) CCAUC a phenderfyniadau'r Cyngor.

Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu

7. Mae'r trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig yn cynnwys cyrff llywodraethu sefydliadau a reoleiddir yn darparu sicrwydd blynyddol i CCAUC mewn

[13] Gweler Cylchlythyr W17/18HE www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars_2017.aspx. Mae'r fersiwn diweddaraf o'r cyfarwyddyd adolygu ar gael yn www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/qa_fa_wa.aspx

perthynas ag ansawdd. Gofynnir iddynt gadarnhau'r datganiadau canlynol yn flynyddol.

1 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad yn ystyried yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei sefydlu a'i weithredu fel sy'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.

2 Mae'r methodolegau a ddefnyddir fel sail i wella profiad academaidd y myfyrwyr a chanlyniadau'r myfyrwyr yn gadarn ac yn briodol hyd eithaf ein gwybodaeth ni.

3 a) *Ar gyfer darparwyr â phwerau dyfarnu gradd*: Mae safonau'r dyfarniadau rydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u pennu a'u cynnal yn briodol.
b) *Ar gyfer darparwyr heb bwerau dyfarnu gradd*: Mae safonau'r dyfarniadau rydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u cynnal yn briodol.

4 Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y trafod blynyddol rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gyfatebol, wedi craffu ar ganlyniadau'r arolwg myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u sefydlu a'u gweithredu, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.

5 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn copi o'r cytundeb perthynas rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gyfatebol, a chopi o siarter y myfyrwyr, ac mae'r ddau wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

16. Gyda'i gilydd nod y datganiadau hyn yw sicrhau bod y sefydliad yn cynnal ffocws priodol ar wella a gweithio mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr. Os nad yw corff llywodraethu'n gallu darparu'r sicrwydd hwn, gall hyn ddynodi bod y ddarpariaeth yn annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly).[14] Bydd swyddogion yn triongli'r datganiadau hyn fel rhan o'r ymweliadau sicrwydd bob tair blynedd (gweler isod) ac ystyrir y canlyniadau yn y broses ARS.

Ymweliadau sicrwydd bob tair blynedd

17. Mae CCAUC wedi cyflwyno elfen sicrwydd ansawdd yn yr ymweliadau sicrwydd bob tair blynedd â sefydliadau.[15] Bydd hyn yn sail i ymweliadau sefydliadol y Cyngor ac ymweliadau eraill a'r prosesau sicrwydd. Bydd hefyd yn sail i'n proses adolygu risg sefydliadol bresennol[16], a gynghorwyd gan ein

[14] Mae gwybodaeth am hyn ar gael yng Nghylchlythyr W17/07HE www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/qa_fa_wa.aspx.
[15] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/Triennial%20Assurance%20visit%20leaflet%20English.pdf
[16] Gall y broses gael ei hadolygu yng ngoleuni ein rôl reoleiddio

PAA, a'r llythyr risg blynyddol dilynol at y darparwr. Hefyd bydd yn sail i asesiad o gyflwyniadau blynyddol y cynlluniau mynediad a ffioedd. Bydd ein cyswllt â sefydliadau ar ôl y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar risg ac yn gymesur. Hefyd mae'n galluogi asesiad pellach o a yw'r ansawdd yn annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly).

18. Mae'r ymweliad bob tair blynedd yn cynnwys ymweld â'r sefydliad a chynnal cyfarfodydd ar wahân gyda:
- yr undeb myfyrwyr a'r cynrychiolwyr;
- aelodau o'r Corff Llywodraethu;
- aelodau'r uwch dîm rheoli, gan gynnwys staff sydd â chyfrifoldeb am ansawdd.

19. Mae'r ymweliad yn gyfle i'r sefydliad roi gwybodaeth am ei weithgareddau gwella, er mwyn dangos sut mae'n diwallu anghenion y myfyrwyr, sy'n newid. Wedyn mae swyddogion CCAUC yn llunio adroddiad a ddarperir ar ffurf drafft i'r sefydliad fel ei fod yn gallu tynnu sylw at faterion yn ymwneud â manwl gywirdeb. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer y sefydliad, er mwyn iddo allu rhoi sylw i'r materion a nodwyd. Darperir yr adroddiad terfynol i'r PPA am gyngor, a hefyd fe'i darperir i'r Cyngor fel sail i'w ymgysylltu â sefydliadau.

20. Mae'r swyddogion yn disgwyl i gorff llywodraethu'r sefydliad ystyried yr adroddiad hefyd.

<u>Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr</u>

21. Mae'r trefniadau partneriaeth rhwng cyrff myfyrwyr a darparwyr addysg uwch yng Nghymru wedi'u datblygu'n dda, gan gynnwys drwy Wise Cymru, cydweithrediad o sefydliadau'r sector sy'n gweithio i greu diwylliant o bartneriaeth ystyrlon rhwng addysgwyr, undebau myfyrwyr a myfyrwyr ledled Cymru. Mae hyn wedi helpu i greu diwylliant o wella. Mae'n darparu cyfleoedd amrywiol i fyfyrwyr godi materion perthnasol i ansawdd sy'n annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly), gan gynnwys drwy gyfrwng adolygiad sefydliadol, prosesau'r sefydliad ei hun, y corff llywodraethu, neu'n uniongyrchol gyda CCAUC.

22. Rydym yn credu mai'r corff llywodraethu ddylai fod yn gyfrifol am gasglu safbwyntiau myfyrwyr a bod rhaid iddo ddangos sut mae wedi gwneud hyn. Yng Nghymru, cyflawnir hyn drwy gyfrwng y canlynol:

(i) Cynrychiolaeth gan fyfyrwyr ar y corff llywodraethu ac ar bwyllgorau sefydliadol perthnasol;

Adroddiad ar y trafod blynyddol rhwng y sefydliad a'r corff o fyfyrwyr, ee drwy gyfrwng yr adroddiad ansawdd blynyddol (AAB), a gefnogir ar hyn o bryd gan Wise Cymru. Byddai'n arfer da i'r corff o fyfyrwyr ddiffinio yn y ddogfen sut mae'n gweld ansawdd ac anghenion rhesymol y myfyrwyr[17](i) ;

(ii) Gofyniad i bob sefydliad a reoleiddir fod â siarter myfyrwyr;

[17] Gall CCAUC ofyn am gopïau o'r dogfennau hyn cyn yr ymweliadau bob tair blynedd

(iii) Cadarnhad bod craffu wedi bod ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a chynlluniau gweithredu wedi'u rhoi yn eu lle mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr;
(iv) Cynnwys myfyrwyr fel adolygwyr cymheiriaid yn yr adolygiad allanol a gomisiynir gan y corff llywodraethu, a thrwy ymgysylltu â'r corff o fyfyrwyr drwy gyfrwng yr adolygiad allanol;
(v) Ymgysylltu â'r corff o fyfyrwyr drwy gyfrwng ymweliadau sicrwydd bob tair blynedd CCAUC.

Hefyd, ochr yn ochr â Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn cynnig bod y myfyrwyr yn:

(vi) aelodau o UKSCQA i oruchwylio datblygiad gofynion rheoleiddiol sylfaen;
(vii) gallu rhoi gwybod am gwynion am ddarparwr unigol ar gyfer ymchwiliad drwy gyfrwng unrhyw fecanwaith pryderon a fabwysiedir.

Bydd rhaid i sefydliadau myfyrwyr sicrhau eu bod yn cynrychioli'r corff myfyrwyr amrywiol, er mwyn sicrhau bod anghenion yr holl fathau o fyfyrwyr yn cael eu hystyried yn briodol yn eu hymgysylltu â'r prosesau hyn, ac wrth ddatblygu'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

Trefniadau cryfach i ddiogelu safonau graddau a'u cymharu'n rhesymol ledled y DU, o dan arweiniad cyrff cynrychioliadol y sector

1. Mae'r gwaith yn y maes hwn yn parhau a'r nod yw sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn parhau'n ddigonol. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys:
   - Gwaith Universities UK a GuildHE ar Ddeall Algorithmau Graddau;
   - Gwaith Universities UK a GuildHE ar chwyddiant / gwelliant graddau;
   - Gwaith a gomisiynwyd gan yr Academi Addysg Uwch mewn perthynas ag archwilio allanol, datblygiad proffesiynol a graddnodi.

2. Ystyrir gwaith yn y maes hwn gan yr UKSCQA, sy'n cynghori ar gynnydd a chanlyniadau. Mae'r mathau hyn o ddatblygiadau'n cynnig cyfleoedd i sefydliadau arddangos eu harferion da, ac elwa o well dealltwriaeth o arferion mewn mannau eraill.

Ymyriad teilwredig ond hynod gyflym yn ôl yr angen

Gweithdrefnau cwyno

3. Mae CCAUC wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer Cwynion am sefydliadau (gan gynnwys pryderon am safonau ac ansawdd). Mewn perthynas ag ansawdd, mae hon yn cymryd lle Cynllun Pryderon blaenorol y QAA ar gyfer Cymru. Mae'r broses yn galluogi i unrhyw un sy'n ymwybodol o faterion perthnasol i ansawdd sy'n annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly) roi gwybod amdanynt yn uniongyrchol i CCAUC.

4. Rhaid i'r mater ymwneud ag ansawdd addysg fel y diffinnir o dan Adran 18(2) Deddf 2015, h.y. yn berthnasol i ansawdd sydd, neu'n debygol o ddatblygu i

fod, yn annigonol. Mae hyn yn cynnwys materion perthnasol i safonau a phrofiad academaidd y myfyrwyr. Hefyd rhaid i'r mater effeithio, neu fod â photensial i effeithio ar grŵp o fyfyrwyr, yn hytrach nag unigolyn. Hefyd, fel rheol, dylai'r mater fod wedi'i godi drwy gyfrwng gweithdrefnau'r sefydliad ei hun, cyn cyflwyno cwyn i CCAUC.

5. Mae ein gweithdrefn gwynion yn datgan y prosesau i'w defnyddio, a gellir eu diweddaru yn ôl yr angen. Cyfrifoldeb y datgelwr yw sicrhau ei fod yn edrych ar y fersiwn diweddaraf o'r weithdrefn gwynion.

6. I ddechrau, bydd swyddogion CCAUC yn gwneud pa waith bynnag a ystyrir yn angenrheidiol mewn perthynas â chwynion am ansawdd. Gall hyn gynnwys ymchwiliad rhagarweiniol i'r mater, os credir fod hynny'n briodol. Os credir fod ymchwiliad ansawdd llawn yn angenrheidiol, fel rheol bydd CCAUC yn cyfeirio'r mater i sylw'r QAA. Bydd yr ymchwiliad yn arwain at adroddiad, a gyhoeddir fel rheol ar wefan CCAUC o fewn 30 diwrnod i'w gyhoeddi.

Cyfarwyddyd

7. Hefyd, o dan Ddeddf 2015, mae gan CCAUC rym i gyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd ar gyfer materion perthnasol i wella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan (neu ar ran) sefydliadau a reoleiddir. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar faterion a ystyrir gan CCAUC wrth benderfynu ynghylch a yw ansawdd yr addysg yn annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly). Rhaid i CCAUC ymgynghori ar gyfarwyddyd o'r fath, a rhaid i gyrff llywodraethu sefydliadau a reoleiddir ei ystyried wedyn.

Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC

8. Bydd Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC yn cynghori CCAUC ar faterion perthnasol i ansawdd sy'n annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly). Mae hyn yn cynnwys cynghori ar sicrwydd cyn ymgynghori, ac ar faterion sy'n codi drwy brosesau eraill fel Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, adolygiad bob tair blynedd, neu ymgysylltu arall â sefydliadau.

Gwarchod enw da rhyngwladol brand addysg uwch y DU, gan gynnwys drwy sicrwydd addysg drawsgenedlaethol

(ii) Cyflawnir hyn drwy alw Pwyllgor Sefydlog y DU sy'n goruchwylio'r gofynion rheoleiddiol sylfaen cyffredin ledled y DU. Hefyd, mae'r QAA yn cynnal Adolygiadau Trawsgenedlaethol, ar ran holl wledydd y DU, er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth dramor ac felly gwarchod y DU yn rhyngwladol [18].

23. Mae CCAUC wedi gofyn i waith tramor QAA gynnwys o leiaf un sefydliad o Gymru ym mhob un o'r gwledydd yr ymwelir â hwy, sy'n rhoi gwybodaeth

[18] Mae'r llawlyfr adolygu addysg drawsgenedlaethol ar gael yn www.qaa.ac.uk/publications/information-and-guidance/publication?PubID=3146#.WIeNC2yDNaQ

uniongyrchol i CCAUC ynghylch a yw ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol (neu'n debygol o ddatblygu i fod felly).

24. Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn glir am bwysigrwydd cynnal ar draws y pedair gwlad mewn perthynas ag ansawdd addysg drawsgenedlaethol.

Gwybodaeth ychwanegol

25. Bydd CCAUC yn parhau i adolygu'r Fframwaith Asesu Ansawdd. Bydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal tua diwedd 2018/19. Bydd hyn yn cynnwys ystyried datblygiadau ledled y DU mewn perthynas ag ansawdd, lle maent yn effeithio ar rôl reoleiddiol CCAUC. Bydd yn galluogi gwerthuso'r canlynol:
    - a yw'r Fframwaith yn diwallu anghenion Cymru;
    - unrhyw newidiadau gofynnol;
    - a ddylid cael ffocws cynyddol ar welliant parhaus;
    - a ddylid addasu elfennau o'r Fframwaith o ganlyniad i weithredu'r Cod Ansawdd adolygedig, a'r fframwaith rheoleiddiol yn Lloegr;
    - a ellid cynnwys elfennau o arfer da yn y Fframwaith.

26. Hefyd, mae CCAUC yn cydnabod y bydd anghenion myfyrwyr yn newid gydag amser, ee fel ymateb i dechnoleg newydd neu ffurf newydd ar ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r Fframwaith esblygu hefyd o bosib, i ystyried yr anghenion newydd.

27. Bydd CCAUC yn llunio cyfarwyddyd ar wahân ar sut byddai ei bwerau statudol mewn perthynas â darpariaeth sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol yn cael eu rhoi ar waith, a beth fyddai hyn yn ei gynnwys.

Atodiad A

Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Fframwaith Asesu Ansawdd				
Porth	**Trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig**	**Ymyriad teilwredig ond hynod gyflym**	**Safonau Gradd a Chymharu**	**Enw Da yn Rhyngwladol**
• Adolygiad porth	• Trefniadau adolygu seiliedig ar risg • Craffu ar ddata • Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu • Ymweliadau bob tair blynedd • Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr	• Proses gwynion CCAUC • Cyfarwyddyd • Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC	• Deall Algorithmau Gradd • Chwyddiant / gwelliant graddau • Archwilio allanol, datblygiad proffesiynol a graddnodi	• Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd • Ymweliadau adolygu trawsgenedlaethol